

Cyfrannu Tuag at Gost Gwasanaethau Dibreswyl – Gwybodaeth ynghylch Codi Tâl

Ebrill 2019 - Mawrth 2020



Gwasanaethau Cymdeithasol



Cyflwyniad

Mae'r wybodaeth ddilynol yn cyfeirio at y gwasanaethau hynny y mae pobl yn eu derbyn yn eu cartrefi eu hunain, yn y gymuned ac am ofal tymor byr wedi'i gynllunio sy'n parhau am lai na 8 wythnos. Caiff gwasanaethau gofal preswyl a nyrsio (yn cynnwys lleoliadau dros dro) a'r ffioedd am y gwasanaethau hynny eu trafod mewn taflen ar wahân 'Gofal Preswyl a Nyrsio - Talu am Ofal mewn Cartref Gofal'.



Pan ein bod yn codi ffioedd am wasanaethau

Fel pob awdurdod lleol, mae'n rhaid i Gyngor Bwrdeisdref Blaenau Gwent weithio o fewn y cyfyngiadau ariannol llym a roddir arno gan y Llywodraeth. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod rhan bwysig Gwasanaethau Cymdeithasol ym mywydau llawer o bobl ac mae ganddo ymrwymiad i gynnal y safonau gorau posibl a'r ystod ehangaf o wasanaethau.

Mae hefyd yn bwysig sicrhau fod y ffioedd a godir yn fforddiadwy i ddefnyddwyr gwasanaeth ac felly, cyn y codir unrhyw ffi, cynhelir asesiad unigol o'r hyn y disgwylir i berson ei gyfrannu yn seiliedig ar eu gallu i dalu; gelwir hyn yn asesiad ariannol. Mae'r wybodaeth hon yn esbonio'r ffioedd a sut y cânt eu cyfrif.

Dylid nodi mai dim ond un ffi a godir faint bynnag o wasanaethau amhreswyl a dderbynnir.

Pa wasanaethau y codir ffi amdanynt?

Gellir codi ffi am y gwasanaethau amhreswyl dilynol o'r diwrnod cyntaf y cânt eu derbyn.

- Gofal Cartref (gwasanaethau a ddarperir ar gyfer gofal personol, gwasanaethau gwarchod, help domestig a siopa). Ffi safonol £21.05 yr awr.
- Mynychu canolfan gofal dydd (codir tâl ar wahân am brydau bwyd a chludiant, lle'n berthnasol). Ffi safonol £57.44 y sesiwn.
- Gwasanaethau Byw â Chymorth. Ffi safonol £21.05 yr awr.
- Taliadau Uniongyrchol. Ffi safonol £14.49 yr awr.
- Gwasanaethau Rhannu Bywydau/Lleoliad Oedolion. Ffi safonol am gymorth sesiwn £8.21 yr awr. Ffi safonol am wasanaethau seibiant/lleoliadau hirdymor. Band A £48.45 y noson, Band B £57.29 y noson, Band C £65.79 y noson, Band D £3.13 y noson.
- Gofal Preswyl Tymor wedi'i Gynllunio neu Ofal Nyrsio hyd at uchafswm o 8 wythnos. Caiff 8 wythnos o ofal tymor byr ei asesu dan y polisi codi ffi am ofal preswyl a nyrsio. Caiff lleoliadau dros dro y disgwylir y byddant yn fwy na 8 wythnos neu gyda dyddiad gorffen amhenodol eu hasesu dan y polisi codi ffi am ofal preswyl a nyrsio o'r dyddiad derbyn.

Ni chodir ffioedd am:

- Gwasanaethau a ddarperir lle cafodd defnyddwyr gwasanaeth eu gorfodi i fynd i ysbyty meddwl dan Adran 3 Deddf Iechyd Meddwl ac yn awr yn derbyn ôl-ofal Adran 117
- Prosiectau cyflogaeth â chymorth
- Gwasanaethau cymorth fel y bo angen - os ariennir gan y Grant Cefnogi Pobl

Ni chodir ffioedd am:

- Gwasanaethau a ddarperir lle cafodd defnyddwyr gwasanaeth eu gorfodi i fynd i ysbyty meddwl dan Adran 3 Deddf Iechyd Meddwl ac yn awr yn derbyn ôl-ofal Adran 117.
- Prosiectau cyflogaeth â chymorth.
- Gwasanaethau cymorth fel y bo angen - os ariennir gan y Grant Cefnogi Pobl.
- Gwasanaethau ar gyfer cleientiaid iechyd meddwl dan y cynllun gweithiwr cymorth
- Gwasanaethau a ddarperir i berson dan 18 oed.
- Ail-alluogi.



Sut y caiff y swm y mae'n rhaid i berson ei dalu ei gyfrif

O 8 Ebrill 2019 mae'r ffioedd safonol am wasanaethau fel y nodir uchod; fodd bynnag, oherwydd y rhoddir ystyriaeth i allu person i dalu, gall yr union swm y bydd angen iddynt ei gyfrannu fod yn is neu efallai na chodir ffi o gwbl.

Bydd person o'r Cyngor a elwir y Swyddog Uchafu Incwm yn cyfrif faint o ffi y mae'n rhaid ei thalu drwy edrych ar yr holl wybodaeth ariannol berthnasol. Byddant hefyd yn eich cynorthwyo i lenwi'r ffurflen os dymunwch.

Defnyddir system prawf modd i gyfrif y ffioedd. Caiff cyfanswm y ffi am wasanaethau ei gymharu gyda chyfanswm incwm wythnosol y defnyddiwr gwasanaeth. Byddwn wedyn yn sicrhau na chaiff person ei adael gyda llai na'r lefel warantedig o incwm wythnosol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Unwaith y cafodd y lefel warantedig o incwm ei gyfrif, bydd unrhyw weddill ar gael i dalu am wasanaethau (mewn rhai achosion bydd hyn yn golygu na fydd unrhyw ffi).

Cyfalaf

Mae cyfalaf yn cynnwys cynilion, buddsoddiadau, eiddo a thir (heblaw cartref y person - caiff gwerth cartref person ei anwybyddu bob amser).

Dros £24,000 - os oes gan berson gyfalaf dros y swm hwn codir y ffioedd a restrir uchod am wasanaethau, hyd at uchafswm o £90.00 yr wythnos.

Incwm wythnosol

Mae'r cyfanswm incwm wythnosol yn cynnwys:

- y rhan fwyaf o fudd-daliadau Nawdd Cymdeithasol a phensiynau
- pob pensiwn preifat a galwedigaethol
- blwydd-daliadau



Y rheolau ar gyfalaf ac incwm ar gyfer cyplau

Os yw dau aelod cwpl yn derbyn gwasanaeth, cânt eu hasesu fel cwpl. Pan mai dim ond un aelod o'r cwpl sy'n derbyn gwasanaeth gellir eu hasesu mewn un o ddwy ffordd.

- Os yw'r budd-daliadau a delir i'r cwpl, megis credyd pensiwn neu gymhorthdal incwm yn rhan o hawliad ar gyfer dau aelod y cwpl, yna caiff eu hincwm a'u cynilion eu hasesu ar y cyd a dylai'r isafswm incwm ac anwybyddiad gwariant cysylltiedig ag anabled (DRE) a weithredir yn eu hasesiad fod yn seiliedig ar ffigur cymhorthdal incwm sylfaenol ar gyfer cwpl.
- Os nad oes unrhyw fudd-daliadau ar y cyd ac mai dim ond un aelod o'r cwpl sy'n derbyn y gwasanaeth, maent o fewn eu hawliau i ddim ond datgan eu manylion ariannol eu hunain a byddent wedyn yn cael eu hasesu fel person sengl. Gall y dull hwn arwain at i ffi uwch gael ei chodi na phe byddai asesiad o'r cwpl yn cael ei gwblhau os yw'r unigolyn sy'n derbyn y gwasanaethau yn derbyn mwyafrif yr incwm. Os yw'r cwpl yn cytuno, caiff manylion ariannol dau aelod y cwpl eu casglu a byddir yn cwblhau cyfrif i benderfynu pa ddull fyddai'n golygu'r ffi isaf i'r unigolyn. Os gwelir ar ôl gwirio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau ei bod yn glir bod y partner yn hawlio budd-daliadau ar ran yr unigolyn, byddai'r incwm yn cael ei asesu ar y cyd.



Dim ond os yw dau aelod y cwpl yn derbyn y gwasanaethau y rhoddir ystyriaeth i DLA, AA a PIP ar gyfer dau aelod y cwpl. Os mai dim ond un aelod sy'n derbyn gwasanaethau, yna dim ond ei DLA, AA a PIP ei hunan y rhoddir ystyriaeth iddo ar y gyfradd berthnasol.

Anwybyddiad

Caiff rhai mathau o incwm ei anwybyddu'n llwyr neu'n rhannol wrth gyfrif incwm asesadwy wythnosol perso



Incwm a gaiff ei anwybyddu'n llawn

- Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) - Eifen symudedd
- Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) - Eifen symudedd
- Bonws Nadolig
- Taliadau Cronfa Gymdeithasol
- Taliadau Tanwydd Gaeaf
- Taliadau ILF ● Budd-dal Plant udedd
- Enillion
- Credyd Treth Gweithio/Plantl
- Budd-dal Tai
- Budd-dal Treth Gyngor
- Premiwm Gofalwyr o'r Credyd Pensiwn/Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Gweini Parhaus
- Pensiwn Anabledd Rhyfel

Incwm a gaiff ei anwybyddu'n rhannol

- Pensiwn Gweddwon Rhyfel
- Credyd Pensiwn - credyd cynilionl
- Lwfans Byw i'r Anabl (DLA)
- Lwfans Gweini (AA)
- Taliad Annibyniaeth Personol (PIP)

r ôl cyfrif incwm asesadwy wythnosol person caiff lwfans isafswm incwm, lwfans penodol ar gyfer gwariant cysylltiedig ag anabledd a lwfansau am unrhyw forgais, rhent neu gostau treth gyngor cymwys eu tynnu i roi uchafswm ffi wythnosol.

Ymholiadau am ganlyniad yr asesiad ariannol


Cysylltwch â'r Swyddog Uchafu Incwm os oes gennych unrhyw gwestiynau am ganlyniad yr asesiad ariannol. Bydd y swyddog yn gwirio'r ffigurau eto ac yn eich cyngori os oes unrhyw newid. Os ydych yn parhau'n anhapus gyda'r esboniad, dylech hysbysu'r swyddog fydd wedyn yn eich cyfeirio at y Swyddog Incwm am ymchwilio pellach.

Adolygiadau

Caiff cleientiaid eu hysbysu mewn ysgrifen o'r ffi a godir arnynt ar ôl iddynt gael eu hasesu. Os yw cleient yn anhapus gyda'r ffi a aseswyd, hysbysir y cleient am y canlyniad o fewn 10 diwrnod o dderbyn y cais.

Cynhelir yr adolygiad gan y Swyddog Incwm a bydd yn cynnwys ailgyfrif y ffi a godir ar y cleient; hysbysir y cleient o'r canlyniad o fewn 10 diwrnod o dderbyn y cais. Bydd hyn yn rhoi manylion unrhyw newid i'r ffi wythnosol a aseswyd ynghyd ag esboniad.

Dylid dilyn y drefn ar gyfer cwynion swyddogol os yw'r cleient yn dal yn anhapus ar ôl yr adolygiad.



Dulliau talu ffioedd

Byddwch yn derbyn anfoneb bob pedair wythnos yn rhestru'r gwasanaethau a ddarparwyd, y ffi am bob wythnos yn ystod y cyfnod a chyfanswm cost yr anfoneb.

Gellir talu drwy:

- Gellir talu drwy:
- Siec
- Taliad ar-lein
- Cerdyn credyd neu ddebyd* (drwy gysylltu â C2BG - gweler y rhestr gyswllt)
- Arian parod (drwy fynd â'ch anfoneb neu gerdyn talu i unrhyw Swyddfa Bost, Pay Point neu'r Ganolfan Ddinesig)

*Dylid nodi bod gordal bach yn daladwy wrth dalu gyda cherdyn credyd/debyd

Er mwyn gweithredu'r ffioedd ar gyfer y gwasanaethau mewn modd teg, bydd y Cyngor Bwrdeisdref Sirol yn cymryd camau priodol i gasglu ffioedd na chafodd eu talu gan berson yr aseswyd eu bod yn gyfrifol amdanynt.



Sut y gall person wneud yn siŵr eu bod yn hawlio'r holl fudd-daliadau mae ganddynt hawl iddynt i helpu talu am ffioedd

Mae Llywodraeth Cymru a Chyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent yn deall fod gorfod talu am wasanaethau yn debyg o fod yn fater o bryder mawr i bobl, er y cadwyd y ffioedd mor isel ag sydd modd. Rhoddir ystyriaeth i allu pobl i dalu wrth gyfrif faint y bydd yn rhaid iddynt ei dalu tuag at gost y gwasanaethau. Mae ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru a Gwasanaethau Cymdeithasol fod yn rhaid rhoi help i unrhyw un sy'n gorfod talu ffioedd am wasanaethau i wneud yn siŵr eu bod yn hawlio'r holl fudd-daliadau Nawdd Cymdeithasol a phensiynau y mae ganddynt hawl iddynt. Mae hyn yn cynnwys budd-daliadau nad yw pobl wedi eu hawlio yn y gorffennol er bod ganddynt hawl iddynt.

Bydd y Swyddog Uchafu Incwm yn cwblhau gwiriad budd-daliadau pan fyddant yn cwblhau'r asesiad ariannol. Ni chodir tâl am y gwasanaeth yma ac mae ar gael i unrhyw un sy'n derbyn gwasanaeth y codir ffi amdano gan yr Adran.

Bet sy'n digwydd i'r wybodaeth ariannol a phersonol a roddir?

Bydd Gwasanaethau Cymdeithasol yn trin yr holl wybodaeth yn hollol gyfrinachol.

Ni chaiff yr wybodaeth ei defnyddio ar gyfer unrhyw ddiben heblaw i gyfrif y cyfraniad a ddisgwylir tuag at y ffioedd.

Gallwn rannu gwybodaeth gydag adrannau eraill o fewn y Cyngor, megis Budd-dal Tai a Threth Gyngor i sicrhau fod yr wybodaeth a gedwir yn gywir.

Sut i gysylltu â ni

Tîm Incwm Gwasanaethau Cymdeithasol
Adran Adnoddau
Llys Anvil
Stryd yr Eglwys
Abertyleri
NP13 1DB
Ffôn: (01495) 355794

Neu

C2BG

Y Ganolfan Gyswilt

Ffôn: (01495) 311556

Tîm Atgyfeirio Dyletswydd

Ffôn: (01495) 311556



Cysylltwch â'r Swyddog Gwybodaeth ar
(01495) 354630 os gwelwch yn dda os hoffech
dderbyn y ffurflen hon yn electronig.

Leaflet BM011-05 Ebrill 2018
www.blaenau-gwent.gov.uk